

**Aesiad Effaith
Reoleiddiol DRAFFT**

MYNEGAI

TUDALEN	CYNNWYS
3	CRYNODEB GWEITHREDOL O GOSTAU A MANTEISION
3	Opsiwn A – Cadw model y ffi sefydlog (Gwneud dim)
5	Opsiwn B – Model haenog
8	Opsiwn C – Model cyfradd yr awr
13	Atodiad 1
18	Opsiynau
18	Opsiwn – Cadw model y ffi sefydlog (Gwneud dim)
35	Opsiwn B – Model haenog
55	Opsiwn C – Model cyfradd yr awr
63	Atodiad 2
66	Atodiad 3
67	Atodiad 4

ASESIAD EFFAITH REOLEIDDIOL DRAFFT

CRYNODEB GWEITHREDOL O GOSTAU A MANTEISION

1. Cafodd tri opsiwn eu hystyried wrth ddadansoddi costau a manteision y system ffioedd a thaliadau trwyddedu morol newydd. Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn rhoi'r prif gostau a manteision ar gyfer pob opsiwn a cheir rhagor o fanylion yn **Atodiad 1** sy'n cynnig dadansoddiad fesul pecyn gwaith ar gyfer pob opsiwn. Aseswyd costau dros gyfnod o ddeng mlynedd, 2017-18 hyd at 2027-28. Un o brif nodau'r system ffioedd newydd yw sicrhau y caiff costau eu hadennill yn llawn.

Costau Hysbysebu

2. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau ffurfiol yn gofyn am hysbysebu a gall y costau hyn amrywio'n fawr. Amcangyfrifir y bydd y costau tua £48,000 - £78,000 y flwyddyn ar gyfer pob cais. Noder y caiff y costau hysbysebu hyn eu trosglwyddo'n uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwr i'r cwsmer ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn y costau cyffredinol yn y ddogfen hon.

Opsiwn A – Cadw model y ffi sefydlog (Gwneud dim)

3. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r model a'r ffioedd presennol ar gyfer trwyddedu morol yng Nghymru.
4. Nodir y ffioedd a godir ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, sef Gweinidogion Cymru, yn y ddolen isod ac yn **Atodiad 2**:

<http://www.naturalresources.wales/apply-for-a-permit/marine-licensing/fees-table/?lang=cy>

5. Codir ffi sefydlog ymlaen llaw am bob pecyn gwaith, pan fo ffi'n cael ei chodi. Ni chodir ffi sefydlog am nifer o becynnau gwaith a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel y cyfryw mae'n arwain at ddiffyg i Cyfoeth Naturiol Cymru.
6. Nid yw'r ffioedd presennol yn adlewyrchu'r ystod llawn o wasanaethau a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â thrwyddedu morol ac Aseidiadau o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) heddiw. Ar hyn o bryd, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn codi ffi am bob gwasanaeth o dan y drefn AEA, cyngor a chymorth cyn gwneud cais a nifer o weithgareddau cydymffurfio ôl-drwyddedu. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adennill tua 46% o gostau darparu gwasanaethau.

Costau Opsiwn A

7. Cyfanswm cost darparu'r system trwyddedu morol bresennol yn seiliedig ar y costau staff presennol yw £623,695 y flwyddyn.

DRAFFET

8. Caiff y costau hyn eu rhannu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cwsmer. Mae'r ffioedd a dalwyd gan gwsmeriaid yn cyfrif am tua £289,000 y flwyddyn, ar gyfer yr holl becynnau gwaith. Mae hyn yn arwain at ddiffyg o £334,695 a gymorthdelir. Nid yw cost darparu'r system trwyddedu morol bresennol yn cynnwys costau cyngor allanol. Amcangyfrifir bod y rhain yn £95,000 y flwyddyn.
9. Dros gyfnod o 10 mlynedd, cyfanswm y costau mewn termau gwerth presennol yw £5,187,025.00. Codir ffioedd gwerth £2,403,500.00 ar gwsmeriaid ac mae'r swm sy'n weddill, sef £2,783,525.00 yn cael ei gymorthdal. Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r costau hyn.

Tabl 1

Costau Opsiwn A		
	Blynyddol	10 Mlynedd (GNP¹)
Cyfanswm Costau	£623,695.00	£5,187,025.00
Cwsmeriaid	£289,000.00	£2,403,500.00
Awdurdod Trwyddedu	£334,695.00	£2,783,525.00

10. Felly, o dan yr Opsiwn hwn, mae cost ariannol i ddefnyddwyr y system trwyddedu morol drwy ffioedd, ac i'r awdurdod trwyddedu y mae'n rhaid iddo wneud iawn am y diffyg.
11. Mae cost hefyd o ran darparu'r gwasanaeth cyfyngedig iawn i gwsmeriaid gan na all Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu system drwyddedu gadarn a llawn, fel Opsiwn B ac C. Er enghraifft, ni ddarperir gwasanaeth llawn cyn gwneud cais, a all arwain at gostau i'r defnyddwyr a'r awdurdod trwyddedu o ran colledion effeithlonrwydd.

Opsiwn A – Manteision

12. Y manteision o dan yr opsiwn hwn yw y bydd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn parhau i dalu ffioedd isel ac y bydd rhai pecynnau gwaith yn parhau i fod yn ddi-dâl. Mae'r ffioedd hefyd yn eithaf clir a hysbys ymlaen llaw, gan roi sicrwydd ynglŷn â chost i gwsmeriaid.
13. Ni nodir unrhyw fanteision i Cyfoeth Naturiol Cymru gan y bydd yn parhau i ddarparu gwasanaeth na all adennill ei gostau'n llawn ac felly y byddai'n parhau i wynebu diffyg o ran adennill eu costau am ddarparu'r gwasanaeth.

¹ Gwerth Net Presennol (GNP). Mae'r costau wedi cael eu disgowntio i adlewyrchu ffafriaeth cyfradd gymdeithasol amser gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM o 3.5%

Casgliad

14. Nid yw Opsiwn A yn cyflawni amcanion allweddol yr adolygiad, sef sicrhau y caiff y costau eu hadennill yn llawn, lle y bo modd, a bod y ffioedd a'r taliadau yn gymesur, yn deg ac yn dryloyw. Nid yw'r ddibyniaeth fawr ar gymhorthdal i wneud iawn am y diffyg mewn ffioedd yn gynaliadwy nac yn deg. Hefyd, nid yw'r system bresennol yn cynnwys pob pecyn gwaith sy'n lleihau cadernid y system trwyddedu morol gyffredinol. Felly, nid ystyrir ei bod yn briodol dewis yr opsiwn hwn i Gymru.

Opsiwn B – Model haenog

15. Mae'r dull hwn yn debyg i fodel presennol y Sefydliad Rheoli Morol. Mae'n gyfuniad o ffioedd sefydlog a chyfraddau yr awr, ar bob cam o'r broses trwyddedu morol. Ceir dadansoddiad o'r gyfradd yr awr yn **Atodiad 3**.
16. Mae adran y model sy'n ymwneud â cheisiadau ffurfiol yn cynnwys tair haen. Bydd band y prosiect yn dibynnu ar gymhlethdod y cais i'w benderfynu a'r risg. Y tri band yw:
 - Band 1 – gweithgareddau risg isel, ffi sefydlog (£600)
 - Band 2 – ceisiadau nad ydynt yn gymhleth nac yn cynnwys AEA, ffi sefydlog (£1920)
 - Band 3 – ceisiadau cymhleth/sy'n cynnwys AEA, cyfradd yr awr (£120 yr awr)
17. O dan yr opsiwn hwn, caiff gwasanaeth ehangach cyn gwneud cais ei gynnig i gwsmeriaid. Bydd hyn yn cynnwys cyngor pwrpasol cyn gwneud cais ac adolygiad o ddatganiadau amgylcheddol.
18. O dan yr Opsiwn hwn gall costau gael eu hadennill ar bob cam o'r broses drwyddedu, gan gynnwys cyn gwneud cais, y broses gwneud cais ffurfiol a gwaith monitro ôl-drwyddedu ac amrywiadau. Ochr yn ochr â chostau'r awdurdod trwyddedu, lle y bo'n briodol, câi costau cynghori allanol eu codi ar wahân ar y cwsmer. Ceisir cyngor allanol gan Cefas fel arfer, ond nid bob tro. Mae ffioedd Cefas wedi'u defnyddio i roi amcan o'r costau tebygol i gwsmeriaid gan mai gwasanaeth Cefas a ddefnyddir gan amlaf. Mae costau Cefas yn amrywio o £78.10 i £119.76 yr awr ar hyn o bryd ac maent yn cynnwys TAW, y gellir ei chodi am gyngor allanol. Bydd y gyfradd yr awr yn dibynnu ar radd y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith. Gall ffioedd Cefas newid a chânt eu hadolygu'n flynyddol.
19. Pan fo angen cyngor allanol, bydd y swyddog achos yn trafod hyn â'r cwsmer. Caiff dyfynbris ei roi am bob pecyn gwaith. Gweler **Atodiad 4** am ragor o wybodaeth am amcangyfrif o nifer yr oriau o gyngor allanol y mae'n debygol y bydd eu hangen.

Monitro Safleoedd Gwaredu

20. Ni chaiff unrhyw waith monitro strategol ffurfiol ei wneud ar safleoedd gwaredu. Bydd hyn yn parhau o dan bob opsiwn, felly nid oes unrhyw gostau na manteision uniongyrchol i gwsmeriaid, na'r awdurdod trwyddedu. Fodd bynnag, bwriadwn ystyried rhaglen fonitro ac unrhyw ffioedd cysylltiedig fel rhan o adolygiad yn y dyfodol.

Costau Opsiwn B

21. Cyfanswm cost darparu gwasanaeth trwyddedu morol ehangach bob blwyddyn o dan Opsiwn B yw £746,775² y flwyddyn. Bydd y rhan fwyaf o'r costau yn cael eu hysgwyddo gan y cwsmeriaid hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth, sef £746,415 y flwyddyn yn ôl amcangyfrif. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cymorthdalur £360.00 sy'n weddill. Y gost llinell sylfaen gyffredinol yw £745,993 am ddarparu'r gwasanaeth trwyddedu morol yn Cyfoeth Naturiol Cymru, yn seiliedig ar gostau staff a chostau nad ydynt yn ymwneud â staff o dan yr opsiwn hwn. Mae'r tâl yr awr o £120 yn seiliedig ar y ffigur hwn wedi'i rannu â nifer yr oriau swyddog achos sydd ar gael (6,238). Fodd bynnag, ar gyfer yr asesiad hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio'r costau sy'n seiliedig ar lwyth gwaith a ragwelir yn y dyfodol, sydd ychydig yn uwch ac sy'n arwain at gost o £746,775 i ddarparu'r gwasanaeth. Hynny yw, disgwylir ar hyn o bryd y bydd y llwyth gwaith (yn seiliedig ar ddata hanesyddol a chan dybio y bydd y llwyth gwaith hwn yn parhau dros ddeng mlynedd) ychydig yn fwy na nifer yr oriau swyddog achos y flwyddyn sydd ar gael. Amcangyfrifon gorau yw'r ffigurau llwyth gwaith ac mae'n debygol y bydd y costau'n debyg iawn i'r costau darparu gwasanaeth llinell sylfaen. Noder nad yw'r costau hyn yn cynnwys cyngor allanol. Gweler y dadansoddiad yn y Tabl isod.

Tabl 2

Costau Opsiwn B		
	Blynyddol	10 Mlynedd (GNP)
Cyfanswm Costau	£746,775.00	£6,210,630.00
Cwsmeriaid	£746,415.00	£6,207,640.00
Awdurdod Trwyddedu	£360.00	£2,995.00

² Mae costau darparu Opsiwn B, sef £746,775, yn seiliedig ar lwythi gwaith a ragwelir. Mae cyfanswm costau'r gwasanaeth (Atodiad 3 £745,993) yn seiliedig ar gostau rhedeg y gwasanaeth gan gynnwys costau staff uniongyrchol ac anuniongyrchol

22. Ceir dadansoddiad o'r ffordd y penderfynwyd ar y gyfradd yr awr yn **Atodiad 3**.
23. Ochr yn ochr â chostau'r awdurdod trwyddedu, lle y bo'n briodol, câi costau cynghori allanol eu codi ar wahân ar y cwsmer. Mae'r costau hyn yn amrywio o £78.10 i £119.76 yr awr ar hyn o bryd ac maent yn cynnwys TAW, y gellir ei chodi am gyngor allanol. Bydd y gyfradd yr awr yn dibynnu ar radd y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith. Gall y ffioedd hyn newid a chânt eu hadolygu'n flynyddol.
24. Pan fo angen cyngor allanol, bydd y swyddog achos yn trafod hyn â'r cwsmer. Caiff dyfynbris ei roi am bob pecyn gwaith. Gweler **Atodiad 4** am ragor o wybodaeth am yr oriau amcangyfrifedig o gyngor allanol y bydd eu hangen o bosibl.
25. Bydd cost flynyddol i gwsmeriaid o dan yr Opsiwn hwn, sef £746,415. Mae hyn yn gynydd o £457,415 o gymharu â'r llinell sylfaen (Opsiwn A).
26. Bydd cost i gwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau na chodwyd ffi gysylltiedig amdanynt o'r blaen. Ni ddisgwylir y bydd yr Opsiwn hwn yn arwain at newid yn nifer y ceisiadau a wneir, ond gallai arwain at fwy o ddefnydd o wasanaethau cyn gwneud cais a gwasanaethau eraill.
27. Bydd cost hefyd i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan yr opsiwn hwn sy'n gysylltiedig â datblygu system sy'n cofnodi'n gywir yr amser a dreulir yn ymgymryd â swyddogaethau trwyddedu morol, ynghyd â gweinyddu anfonebau o dan yr opsiwn hwn.

Manteision Opsiwn B

28. Y manteision o dan yr opsiwn hwn yw y bydd dewis ehangach o wasanaethau ar gael i'r cwsmer nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Ar gyfer llawer o'r gweithgareddau nodweddiadol nad ydynt yn ymwneud ag AEA bydd gan awdurdod trwyddedu fwy o sicrwydd o ran faint o adnoddau sydd eu hangen i wneud penderfyniad trwyddedu, sy'n golygu y byddai ffi sefydlog gymesur yn dderbyniol ac yn haws ei gweinyddu. Mae'r elfen ffioedd sefydlog hon yn rhoi sicrwydd ynglŷn â ffioedd i gwsmeriaid ymlaen llaw.
29. Byddai codi cyfradd yr awr am feysydd gwaith sy'n fwy heriol eu rhagweld o ran adnoddau yn sicrhau y caiff costau eu hadennill yn llawn ac mai dim ond y gwasanaethau a dderbynnir ganddynt y bydd cwsmeriaid yn talu amdanynt.
30. Mae'r elfen ffioedd sefydlog hon o'r Opsiwn hwn yn golygu y bydd llai o waith anfonebu ac felly lai o faich gweinyddol i'r cwsmer a Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr elfen cyfradd yr awr o'r opsiwn hwn yn sicrhau mai dim ond y gwasanaeth a dderbynnir ganddynt ar gyfer meysydd gwaith lle mae'n fwy anodd rhagweld yr adnoddau y bydd eu hangen y bydd cwsmeriaid yn talu amdano.
31. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cael mantais o dan yr Opsiwn hwn gan

y bydd yn gallu adennill costau'r holl wasanaethau a ddarperir ganddo.

Casgliad

32. Bydd Opsiwn B yn galluogi'r awdurdod trwyddedu i gynnig darpariaeth ddigonol o wasanaethau i ddefnyddwyr ac yn sicrhau bod defnyddwyr yn talu am y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer gan leihau'r amgen am gymorthdalau.
33. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig dull teg a chymesur o bennu ffioedd ar gyfer yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod trwyddedu. Felly, bydd modd adennill costau drwy gyfradd yr awr a ffioedd sefydlog dros gylch oes prosiect, lle y bo'n briodol, o'r cam cyn gwneud cais i'r cam monitro ôl-drwyddedu.

Opsiwn C – Model cyfradd yr awr

34. Byddai'r opsiwn hwn yn dilyn model lle y byddai ffi ar sail cyfradd yr awr yn cael ei chodi am bob swyddogaeth trwyddedu morol. Byddai'r model yn cymhwyso tâl cyfradd yr awr o £120 a bennwyd ymlaen llaw (yn **Atodiad 3**) er mwyn adennill holl gostau Cyfoeth Naturiol Cymru, heb derfynau na ffioedd sefydlog.
35. Ochr yn ochr â chostau'r awdurdod trwyddedu, lle y bo'n briodol, câi costau cynghori allanol eu codi ar wahân ar y cwsmer. Mae'r costau hyn yn amrywio o £78.10 i £119.76 yr awr ar hyn o bryd ac maent yn cynnwys TAW, y gellir ei chodi am gyngor allanol. Bydd y gyfradd yr awr yn dibynnu ar radd y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith. Gall y ffioedd hyn newid a chânt eu hadolygu'n flynyddol.
36. Pan fo angen cyngor allanol, bydd y swyddog achos yn trafod hyn â'r cwsmer. Caiff dyfynbris ei roi am bob pecyn gwaith. Gweler Atodiad 4 am ragor o wybodaeth am yr oriau o gyngor allanol y rhagwelir y bydd eu hangen o bosibl.

Costau Opsiwn C

37. Cyfanswm cost darparu'r gwasanaeth trwyddedu morol bob blwyddyn o dan Opsiwn C yw £758,415 .
38. Fel yn achos Opsiwn B, bydd y rhan fwyaf o'r costau yn cael eu hysgwyddo gan y cwsmeriaid hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth, sef £758,055 y flwyddyn yn ôl amcangyfrif.³ Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cymorthdalau'r £360.00 sy'n weddill. Y gost llinell sylfaen gyffredinol yw £745,993 am ddarparu'r gwasanaeth trwyddedu morol yn Cyfoeth Naturiol Cymru, yn seiliedig ar gostau staff a chostau nad ydynt yn ymwneud â staff o dan yr

³ Mae costau darparu Opsiwn C, sef£758,055, yn seiliedig ar lwythi gwaith a ragwelir ar gyfer gwasanaeth cyfradd yr awr yn gyfan gwbl. Mae cyfanswm costau'r gwasanaeth (Atodiad 3 £745,993) yn seiliedig ar gostau rhedeg y gwasanaeth gan gynnwys costau staff uniongyrchol ac anuniongyrchol.

opsiwn hwn. Mae'r tâl yr awr o £120 yn seiliedig ar y ffigur hwn wedi'i rannu â nifer yr oriau swyddog achos sydd ar gael (6,238). Fodd bynnag, ar gyfer yr asesiad hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio'r costau sy'n seiliedig ar llwyth gwaith a ragwelir yn y dyfodol, sydd ychydig yn uwch ac sy'n arwain at gost o £758,055 i ddarparu'r gwasanaeth. Hynny yw, rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y llwyth gwaith (yn seiliedig ar ddata hanesyddol a chan dybio y bydd y llwyth gwaith hwn yn parhau dros ddeng mlynedd) ychydig yn fwy na nifer yr oriau swyddog achos y flwyddyn sydd ar gael. Amcangyfrifon gorau yw'r ffigurau llwyth gwaith ac mae'n debygol y bydd y costau'n debyg iawn i'r costau darparu gwasanaeth llinell sylfaen. Noder nad yw'r costau hyn yn cynnwys cyngor allanol. Gweler y dadansoddiad yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3

Costau Opsiwn C		
	Blynyddol	10 Mlynedd (GNP)
Cyfanswm Costau	£758,415.00	£6,307,440.00
Cwsmeriaid	£758,055.00	£6,304,445.00
Awdurdod Trwyddedu	£360.00	£2,995.00

39. Dangosir y dadansoddiad o'r ffordd y penderfynwyd ar y gyfradd yr awr yn **Atodiad 3**.
40. Bydd cost flynyddol i gwsmeriaid o dan yr Opsiwn hwn, sef £758,055. Mae hyn yn gynydd o £469,055 o gymharu â'r llinell sylfaen (Opsiwn A). Fodd bynnag, ystyrir bod hyn yn deg gan y caiff y costau eu hysgwyddo gan y cwsmeriaid hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth trwyddedu morol.
41. Bydd cost hefyd i gwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau na chodwyd ffi gysylltiedig amdanynt o'r blaen.
42. Bydd cost ychwanegol i gwsmeriaid gan y byddai angen paratoi anfoneb am bob gwasanaeth. Byddai hyn yn faich gweinyddol ac yn cynyddu'r costau cyffredinol i gwsmeriaid.
43. Bydd cost hefyd i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan yr opsiwn hwn sy'n gysylltiedig â datblygu system sy'n cofnodi'n gywir yr amser a dreulir yn ymgymryd â swyddogaethau trwyddedu morol, ynghyd â gweinyddu anfonebau o dan yr opsiwn hwn.

Monitro Safleoedd Gwaredu

44. Ar hyn o bryd, ni chaiff unrhyw waith monitro strategol ffurfiol ei wneud ar safleoedd gwaredu ac felly ni chodir unrhyw ffioedd. Bydd hyn yn parhau o dan yr Opsiwn hwn. Bydd hyn yn destun adolygiad diweddarach a châi unrhyw gostau eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig.

Manteision Opsiwn C

45. Y manteision o dan yr opsiwn hwn yw y bydd dewis ehangach o wasanaethau ar gael i'r cwsmer nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd y gyfradd yr awr yn

sicrhau mai dim ond y gwasanaeth a dderbynnir ganddynt y bydd cwsmeriaid yn talu amdano.

46. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael mantais o dan yr Opsiwn hwn gan y bydd yn gallu adennill costau'n llawn.

Casgliad

47. Yr opsiwn hwn fyddai'n cynnig y dull mwyaf cywir a chadarn o ddarparu system o adennill costau llawn i'r awdurdod trwyddedu. Byddai codi tâl yn ôl cyfradd yr awr yn sicrhau, mor agos â phosibl, y câi'r costau gwirioneddol eu hadennill, fesul achos.
48. Fodd bynnag, ar gyfer llawer o weithgareddau trwyddedu nodweddiadol ystyrir y bydd system o'r fath yn gofyn am anfonebu am bob pecyn gwaith a fyddai'n gosod gormod o faich ar gwsmeriaid y gwasanaeth trwyddedu Morol a baich gweinyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru o ystyried hynny yn erbyn cost wirioneddol y gwasanaeth a ddarperir. Byddai'r costau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r cwsmeriaid, sy'n golygu mai o dan yr Opsiwn hwn y bydd cwsmeriaid yn talu'r costau mwyaf. Byddai hefyd yn golygu ansicrwydd o ran costau i gwsmeriaid pecynnau gwaith ar raddfa fach, lle mae costau yn aml yn debyg.
49. Er y byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn bosibl i gostau gael eu hadennill yn y ffordd fwyaf cadarn, at ei gilydd, ystyrir y bydd yn anghymesur yn achos ceisiadau ar raddfa lai a cheisiadau mwy nodweddiadol. Yn hytrach na threulio amser yn ymgymryd â'r tasgau gweinyddol a fyddai ynghlwm wrth yr Opsiwn hwn, byddai'n fwy buddiol pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn treulio'r amser yn darparu gwasanaeth i'r cwsmer ac fel y cyfryw nid yw'r opsiwn hwn wedi'i ffafrio.

Casgliad ar bob Opsiwn

Tabl 4

	Cost i'r awdurdod trwyddedu (y flwyddyn)	Cost i gwsmeriaid (y flwyddyn)	Cost i'r awdurdod trwyddedu (GNP 10 mlynedd)	Cost i gwsmeriaid (GNP 10 mlynedd)
Opsiwn A	£334,695.00	£289,000.00	£2,783,525.00	£2,403,500.00
Opsiwn B	£360.00	£746,415.00	£2,995.00	£6,207,640.00
Opsiwn C	£360.00	£758,055.00	£2,995.00	£6,304,445.00

50. Nid ystyrir bod Opsiwn A yn opsiwn dichonadwy at y dyfodol. Mae swm y cymhorthdal sydd ei angen a'r diffyg ffioedd sefydlog cywir am yr holl becynnau gwaith yn golygu na fydd modd adennill costau'n llawn.

51. Mae Opsiwn B yn cynnig dull cymesur o bennu ffioedd am yr amrywiaeth eang o weithgareddau y mae angen trwyddedau ar eu cyfer. Gall prosiectau amrywio'n fawr o ran graddfa, maint, cymhlethdod, pa mor arloesol ydynt ac ati. Felly, ystyrir mai cyfuniad o ffioedd sefydlog am becynnau gwaith mwy safonol a thaliadau cyfradd yr awr am becynnau gwaith mwy pwrpasol yw'r dull tecaf. Adlewyrchwyd y farn hon mewn adborth gan randdeiliaid, ar ôl ymgysylltu â hwy'n anffurfiol.
52. Mae ffioedd sefydlog am becynnau gwaith sy'n haws eu rhagweld yn cynnig sicrwydd i gwsmeriaid, yn enwedig o ran gwaith ar raddfa lai. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod costau mor isel â phosibl gan ei fod yn cael gwared ar y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â pharatoi anfonebau i gwsmeriaid, tra hefyd yn sicrhau y caiff costau eu hadennill yn llawn lle y bo modd.
53. Byddai codi cyfradd yr awr am feysydd gwaith sy'n fwy heriol i'w rhagweld o ran adnoddau yn sicrhau y câi costau eu hadennill yn llawn ac mai dim ond y gwasanaethau a dderbynnir ganddynt y bydd cwsmeriaid yn talu amdanynt.
54. Mae Opsiwn B yn cydnabod nad dull o godi ffioedd 'sy'n addas i bawb' fel y'i nodir yn Opsiwn C yw'r dull mwyaf addas at y diben o reidrwydd – o ran amser a dreulir yn rhoi dyfynbrisiau o gostau, yn paratoi anfonebau ac yn ymdrin â thaliadau. Er y bydd y costau ariannol i Cyfoeth Naturiol Cymru yr un fath ag Opsiwn B, bydd cost i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth trwyddedu morol a baich gweinyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gysylltiedig â pharatoi anfoneb ar gyfer pob pecyn gwaith. Yn hytrach na threulio amser ar y tasgau gweinyddol hyn byddai'n fwy buddiol pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn treulio'r amser yn darparu'r gwasanaethau i'r cwsmer. Bydd model cyfradd yr awr o dan Opsiwn C yn arwain at gostau uwch i'r cwsmer.
55. Mae Opsiwn B yn cynnig dull cymesur o bennu ffioedd, gan ei wneud yn bosibl i gostau gael eu pennu'n deg ac o ystyried lefel cymhlethdod ac anghenion asesu tebygol pecyn gwaith. Mae'r opsiwn hwn yn symud y diffyg presennol o ran costau o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat. Mae hyn yn unol â dull Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru o reoli arian cyhoeddus.
56. O dan yr opsiwn hwn, bydd sicrhau gwasanaeth monitro ôl-drwyddedu cadarnach yn sicrhau bod y system drwyddedu yn cael ei rheoleiddio'n well a bod yr amgylchedd, iechyd dynol a defnyddiau eraill o'r môr yn cael eu diogelu.
57. Byddai Opsiwn C yn cynnig dull cywir a chadarn o ddarparu system o adennill costau yn llawn i'r awdurdod trwyddedu. Byddai codi tâl yn ôl cyfradd yr awr yn sicrhau, mor agos â phosibl, y câi'r costau gwirioneddol eu hadennill, fesul achos.
58. Fodd bynnag, ar gyfer llawer o weithgareddau trwyddedu nodweddiadol ystyrir y byddai system o'r fath yn gosod gormod o faich gweinyddol ar yr awdurdod trwyddedu o'i hystyried yn erbyn cost wirioneddol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu – o ran yr amser a dreulir yn rhoi dyfynbrisiau o gostau,

yn paratoi anfonebau ac yn ymdrin â thaliadau. Yn hytrach na threulio amser ar y tasgau gweinyddol hyn byddai'n fwy buddiol pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn treulio'r amser yn darparu gwasanaeth i'r cwsmer. Byddai'r baich gweinyddol ychwanegol hwn hefyd yn cael effaith negyddol ar gwsmeriaid gan y byddai'r costau hynny'n cael eu trosglwyddo i gwsmeriaid.

59. Ar gyfer llawer o'r gweithgareddau nodweddiadol nad ydynt yn ymwneud ag AEA mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru fwy o sicrwydd o ran faint o adnoddau sydd eu hangen i wneud penderfyniad trwyddedu, sy'n golygu y byddai ffi sefydlog gymesur yn dderbyniol ac yn fwy effeithlon i'w gweinyddu na chodi tâl ar gyfradd yr awr. Felly, nid ystyrir bod cyfradd yr awr yn briodol nac yn angenrheidiol o dan yr amgylchiadau hyn.
60. Er y byddai Opsiwn C yn ei gwneud yn bosibl i gostau gael eu hadennill yn llawn, ystyrir ei fod yn anghymesur yn achos ceisiadau ar raddfa lai a cheisiadau mwy nodweddiadol. Nid yw'n cynnig system sy'n addas at y diben nac sy'n gymesur â'r ystod o weithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer. Fel y cyfryw, mae costau ac ansicrwydd y dull gweithredu hwnnw yn drech na'r manteision.
61. Mae taliadau ar gyfradd yr awr yn fwy heriol i'w rhagweld o ran adnoddau o'u cymharu â ffioedd sefydlog ac felly maent yn cynnig mwy o sicrwydd i gwsmeriaid. Mae Opsiwn B yn lleihau cymhlethdod a'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â pharatoi anfonebau i gwsmeriaid i'r eithaf. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ddarparu'r ystod o wasanaethau mewn modd effeithlon i gwsmeriaid.
62. Ond mae gan Opsiynau B ac C gostau cyffredinol tebyg. Opsiwn B yw'r opsiwn a ffeifrir oherwydd ystyrir bod y manteision sy'n deillio ohono yn fwy ar gyfer yr amrywiaeth eang o weithgareddau yn nyfroedd Cymru y mae angen trwydded forol ar eu cyfer.